Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
1 Mehefin 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Emyr Williams, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

Cafwyd sgwrs a chyflwyniad gan Cheryl Williams, Swyddog Gwybodaeth Ffrindiau Dementia. Gwerthfawrogwyd y sgwrs gan bawb, ac fe gafwyd ystyriaeth o'r gwahanol ffyrdd y mae dementia yn effeithio ar bobl, a mewnwelediad i'r hyn y gellir ei wneud i'w liniaru neu ei arafu.

Mae bwriad i nodi Bontnewydd yn bentref dementia gyfeillgar, sy'n golygu fod busnesau a thrigolion y pentref yn rhoi ystyriaeth bellach wrth drafod a darparu gwasanaethu i'r rhai hynny sy'n dioddef o dementia. Cynhelir cyfarfod i drafod y gweithgaredd yma ymhellach ar 14 Mehefin.

Diolchodd y Cadeirydd i Cheryl Williams am ei chyflwyniad.

1. YMDDIHEURIADAU

Dim

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Mai 2017.

Cynnig: Ifor Dylan Williams
Eilio: Emyr Wiliams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Arwydd Rhes Magdalen

Disgwylir i'r arwydd gael ei osod yn fuan. Mae'r arwydd newydd yn rhan o archeb o 40 sy'n cael eu cynhyrchu gyda'i gilydd i Gyngor Gwynedd, a gobeithir y bydd y rhain yn cyrraedd cyn bo hir, ac yn cael eu gosod yn fuan wedyn. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad.

4.2 Cyflwr Y Ganolfan

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Iwan adroddiad byr ar sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Mae angen gwario ar y gegin ac ar y system wresogi. Bydd y Cynghorydd Dafydd Iwan yn darparu prisiau am y gwaith yma yn fuan.

Mae cadw lefel defnydd presennol Y Ganolfan yn hanfodol o ran diogelu incwm, ond nid hawdd hynny gyda thoriadau ariannol cyson yn effeithio ar y mudiadau hynny sy'n defnyddio'r Ganolfan.

Gofynodd y Cynghorydd Ifor Dylan Williams am gopi o'r cyfrifon, gan mai'r Cyngor Cymuned sydd â chyfrifoldeb dros Y Ganolfan yn y pendraw.

4.3 Sgubo Strydoedd Lleol

Mae'r lori sgubo bellach wedi gwneud y darn hynny o'r Lôn Groes na lwyddywd i'w gwneud y tro cyntaf.

Dywedodd y Cynghorydd Gwyneth Thomas fod angen clirio'r drain, gwrychoedd a'r tyfiant sy'n tyfu yn y meysydd parcio yn Lôn Groes. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwyneddd yn gofyn am hyn.

4.4 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cafodd y clerc eglurhad gan Lywodraeth Cymru am yr angen i gael mynediad i Gae Stanley wrth i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu.

Mae angen mynediad er mwyn medru gwneud arolwg ystlumod yn bennaf, ac o bosibl arolygon amgylcheddol. .

4.5 Cyfethol Aelodau

Wedi trafodaeth, cyfetholwyd y canlynol:-

- Cadi Siôn
- Wynne Roberts
- Math Williams
- Mirain Llwyd Owen
- Geraint Strello
- Peter Garlick

Llenwyd felly pob sedd wag

Gofynnwyd i'r Clerc ddiolch i'r aelodau blaenorol am eu gwaith.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mai 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £7.84

5.3 Balans yn y Banc 1 Mehefin 2017- £14, 405.66

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

6.1 Cais cynllunio C17/0488/19/YA – codi sied amaethyddol Fferm y Ddôl, Lôn Foryd, Llanfaglan, LL54 5RA

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

Llythyrau yn diolch am roddion gan yr Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017 Eisteddfod Bontnewydd, Canolfan Bro Llanwnda, Hwyl y Bont, Clwb Pêl Droed Bontnewydd

9. MATERION ERAILL

8.1 Cytunodd y Cynghorydd Ifor Dylan Willians i Pwyllgor Arfon DwyforUn Llais Cymru yng Nghaernarfon ar 14 Mehefin 2017

9.1 Llofnododd y Cynghorwyr oedd yn bresennol ffurflenni yn derbyn eu swydd fel Cynghoryr i ffurflenni derbyn swyddi cynghorwyr newydd

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

6 Gorffennaf am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Mehefin 2017

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Mehefin 2017